EISTEDDFOD 2025

## 156. DEUAWD CERDD DANT O DAN 16 OED

### Chwarter Canrif, Iwan Llwyd

**(oddi ar yr albwm 'Ac Adre Mor Bell ag Erioed')**

**Mae gen i lun wedi melynu,**

**Fel darn 'di llosgi o bapur ddoe'n**

**Deud 'run hen stori, hen gywilydd cas** (daliad)

**Sy'n llosgi fel craith ar y croen.**

**Pan dwi'n camu i'r stryd, fedra'i 'm edrych** (daliad)

**I fyw llygad y dydd,**

**Mae marc fy nghaethiwed yn amlwg i bawb**

**Yn cyhoeddi nad ydw i'n rhydd.**

**Does 'na'm digon o ddŵr yn y môr mawr glas,** (daliad)

**Dim digon o fflamau'n y tân**

**I olchi'r graith ar fy nhalcen i**

**I losgi staen y taeog yn lân.**

**Chwarter canrif o fyw dan ddyfroedd Tryweryn,**

**Chwarter canrif o gloddio mwd Aberfan,**

**Chwarter canrif o blygu glin yng Nghaernarfon**

**A 'dan ni dal yn yr union 'run fan**

**IWAN LLWYD**